Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

2025-2026




Chwefror 2026

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

*Llyfr Iorwerth 1240*

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53894
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhagarweiniad

1. Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Senedd Cymru ar y graddau y maent wedi gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr sy'n ymwneud â materion datganoledig.

2. Dyma'r unfed adroddiad ar ddeg o'r fath; mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2025 a 17 Chwefror 2026 ac yn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed ar amryw o faterion a fu'n destun argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodir yn dangos gwerth cynigion Comisiwn y Gyfraith i waith Llywodraeth Cymru.

## Cwmpas yr adroddiad

3. Mae adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Senedd Cymru ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn dan sylw.

4. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chynigion Comisiwn y Gyfraith sy’n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, a chynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru nad ydynt wedi eu gweithredu, gan gynnwys cynlluniau i weithredu a phenderfyniadau i beidio â gweithredu cynigion.

5. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag adroddiadau Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

## Cynigion sydd wedi eu gweithredu

### *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru (LC406)*

6. Pasiwyd Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2025, ac wedi hynny cafodd y Bil y Cydsyniad Brenhinol ar 11 Medi 2025.

7. Er i’r polisi ddatblygu ar ôl i Gomisiwn y Gyfraith adrodd ar y pwnc yn 2022, mae’r Ddeddf yn adeiladu ar argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r

Ddeddf yn sefydlu un awdurdod goruchwylio – Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru – a fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir i hyrwyddo system gyson o reoli tomenni ac i osgoi perygl i les dynol drwy gyflwyno dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol o reoli tomenni nas defnyddir.

8. Disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2027. Wrth baratoi, mae tîm gweithredu wedi ei sefydlu i sicrhau bod yr adnoddau, y strwythurau a'r prosesau angenrheidiol ar waith er mwyn i'r Awdurdod fod yn gwbl weithredol o'r diwrnod cyntaf.

## Cynigion nad ydynt eto wedi eu gweithredu

### *Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (LC403)*

9. Mae datblygu Bil gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen yn rhannol â chynigion ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd datganoledig ar y gweill, gyda'r bwriad i'r llywodraeth yn y seithfed Senedd ystyried y Bil i'w gyflwyno fel rhan o'i rhaglen ddeddfwriaethol.

### *Lesddaliadau a chyfunddaliadau preswyl (LC392)*

10. Ar ôl deddfu Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024, mae gwaith wedi bod ar y gweill i gefnogi'r broses weithredu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol wneud is-ddeddfwriaeth.

11. Gwnaed Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025 ym mis Chwefror 2025 i hwyluso cychwyn y darpariaethau Hawl i Reoli yn Neddf 2024; lluniwyd y rhain o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgynghori ar gynigion i weithredu darpariaethau ar dryloywder o ran tâl gwasanaeth lesddaliad, disodli comisiynau yswiriant gyda ffi yswiriant a ganiateir, a'r gofyniad i gyhoeddi rhestr er mwyn ei gwneud yn ofynnol i daliadau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau rheoli ystadau rhydd-ddaliadol gael eu talu. Mae'r mwyafrif o'r pwerau i weithredu'r diwygiadau rhyddfreinio, er enghraifft y rhai sy'n ofynnol i osod y cyfraddau i gyfrifo'r premiwm rhyddfreinio, yn ogystal â phwerau i gychwyn darpariaethau'r Ddeddf, yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol.

12. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi deddfwriaeth ddrafft i ddeddfu argymhellion pellach gan Gomisiwn y Gyfraith, yn enwedig mewn perthynas â

chyfunddaliad. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd y diwygiadau pellach pwysig hyn hefyd yn cael eu cymhwyso i Gymru.

### *Cyfraith Etholiadol (LC389)*

13. Mae'r gwaith yn parhau tuag at amcan hirdymor Llywodraeth Cymru o foderneiddio cyfraith etholiadol a sicrhau mwy o gysondeb ar draws etholiadau. Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn y rhaglen hon pan wnaeth Gweinidogion Cymru Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2025.

14. Mae'r Gorchymyn dwyieithog newydd yn disodli'r fersiwn gynharach a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn 2007. Mae'r darn sylweddol hwn o waith deddfwriaethol wedi sicrhau bod y rheolau ar gyfer etholiadau i'r Senedd yn gliriach, yn fwy hygyrch ac yn helpu i sicrhau cysondeb ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a phleidleiswyr.

15. Mae'r Gorchymyn yn ymgorffori diwygiadau o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Mae'r rheolau ar gyfer etholiadau i'r Senedd hefyd yn cyd-fynd â'r rheolau ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a wnaed yn 2021, ac mae gwaith ar y gweill i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau perthnasol eraill i'r rheini cyn yr etholiadau lleol nesaf yn 2027.

### *Cyfraith cynllunio yng Nghymru (LC383)*

16. Yn dilyn ymarfer cydgrynhoi helaeth, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) i'r Senedd ym mis Medi 2025. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, roedd y Senedd wedi cytuno y dylai'r Biliau fynd ymlaen i'r cyfnod craffu terfynol.

17. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd i'r Biliau, disgwylir i waith Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar weithredu. Disgwylir i'r Llywodraeth nesaf gyhoeddi map ffordd sy'n nodi'r holl gamau i'w cymryd, ond mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol i ddod â'r Deddfau (ar y pryd) i rym.

### *Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid (LC372)*

18. Dim adroddiad pellach.

### *Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat ([LC347](LC347))*

19. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys safonau trwyddedau cenedlaethol a argymhellir a deunyddiau hyfforddi gyrwyr i awdurdodau lleol eu mabwysiadu'n wirfoddol.

20. Tynnodd Llywodraeth Cymru Fil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat arfaethedig yn ôl o'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Mai 2024, oherwydd blaenoriaethau deddfwriaethol eraill. Mater i'r Llywodraeth nesaf, yn dilyn yr etholiad yn 2026, fydd ystyried diwygiadau ehangach ar gyfer y sector.

### *Cyfraith amaethyddol yng Nghymru ([LC424](LC424))*

21. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cwblhau ei adolygiad o'r gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru ac wedi cyhoeddi ei adroddiad cwmpasu ar 11 Chwefror 2026. Mae'r adroddiad hwn wedi dod i'r casgliad y gellid gwella hygyrchedd cyfraith amaethyddol yng Nghymru drwy greu cod cyfraith amaethyddol dwyieithog, wedi'i foderneiddio. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi nodi model arfaethedig ar gyfer cod o'r fath a fyddai'n cynnwys dod â deddfwriaeth amaethyddol bresennol at ei gilydd mewn nifer o Ddeddfau ar wahân.

22. Mae'r adroddiad hwn bellach yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru.

## Cynigion nad ydynt i'w gweithredu

23. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â gweithredu cynigion mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol

24. Ar ôl i brosiect Comisiwn y Gyfraith ar y gyfraith amaethyddol yng Nghymru ddod i ben yng nghanol mis Chwefror 2026, nid oedd unrhyw brosiectau byw yn cael eu cynnal ganddo ar ran Gweinidogion Cymru.

25. Ar hyn o bryd, mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithio ar amryw o brosiectau eraill, naill ai fel rhan o'i Bedwaredd Raglen Waith ar Ddeg neu drwy raglenni

cynharach. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru, ac maent yn faterion y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos diddordeb ynddynt.

26. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i ddatblygu cynigion y mae modd eu gweithredu.